MAPPA
DYFED POWYS

ADRODDIAD BLYNYDDOL
2008|2009

TREFNIADAU AMLASIANTAETHOL AR GYFER DIOGELU'R CYHOEDD

Cyflwyniad y Prif Swyddogion

Rydym yn gwybod mai diogelu pobl, yn enwedig plant, rhag trosedd treisgar neu drosedd rhyw yw un o flaenoriaethau pennaf pobl ar draws ardal Dyfed a Phowys ar gyfer asiantaethau sy'n cydweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae Diogelu'r Cyhoedd yn brif flaenoriaeth ac rydym yn rhannu awydd penderfynol i ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr a all fod yn beryglus sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned. Mae ein Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (neu MAPPA - *Multi Agency Public Protection Arrangements*) yn nodi'r ffordd gadarn yr ydym yn cydweithio i adnabod risg a rheoli troseddwyr risg uchel yn ein cymunedau ar draws Dyfed a Phowys.

Rydym yn gweithio'n galed i ailsefydlu troseddwyr gan sicrhau bod cymorth, cefnogaeth ac ymyriadau ar gael i'w cynorthwyo i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau. Rydym yn gadarn wrth fonitro unrhyw newid o ran ymddygiad neu amgylchiadau a allai cynyddu'r risg o niwed, gan gymryd agwedd lem tuag at orfodi gorchmynion llys a thrwyddedau carchar. Fodd bynnag, nid yw troseddwyr sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned dan arestiad tŷ na gwyliadwriaeth 24 awr, ac mae bob amser risg, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, y gallent aildroseddu. Ond mae gennym hanes da o ran hyn yn ardal Dyfed-Powys.

Rydym yn cydbwyso hyn ag ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i ddioddefwyr, gan gadw mewn cof ar bob adeg yr effaith trawmatig ac, o bosib, dinistriol y mae troseddau treisgar neu droseddau rhyw wedi eu cael ar eu bywydau. Dydyn ni byth yn hunanfodlon ac rydym bob amser yn edrych am ddulliau newydd o leihau a rheoli'r risg o niwed.

Gall siarad am droseddwyr rhyw a throseddwyr peryglus fod yn gymhleth ac yn emosiynol. Amcan yr adroddiad blynyddol hwn yw nodi beth yw diben MAPPA a sut y mae'n gweithredu mewn modd gonest a hygyrch. Mae'n rhoi proffiliau o'r asiantaethau a'r unigolion sy'n ymwneud â MAPPA ac yn defnyddio astudiaethau achos i ddangos sut yr ydym yn cydweithio drwy MAPPA.

Ein cyd-ymrwymiad wrth gydweithio dan ambarél MAPPA yw gosod diogelwch ein cymunedau'n gyntaf.

David Ward, Rheolwr Carchar Ei Mawrhydi, Brynbuga a Phrescoed

Liz Rijnenberg, Prif Weithredwraig Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed Powys

Ian Arundale, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys

CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD
2 BETH YW MAPPA?
3 ADRODDIAD YR YMWELYDD LLEYG
4 SICRHAU DIOGELWCH Y CYHOEDD
6 ESBONIO MAPPA
7 GWYBODAETH YSTADEGOL
8 MANYLION CYSWLLT

Y GWASANAETH CARCHARDAI
Carchardai Sector Cyhoeddus

GWASANAETH PRAWF GENEDLAETHOL
NATIONAL PROBATION SERVICE
YMDDIRIEDOLAETH DYFED POWYS TRUST

BETH YW MAPPA?

MAPPA yw'r trefniadau i reoli'r risg a achosir gan rai troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar penodol. Mae'r trefniadau'n dod â'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai yn ardal Dyfed-Powys at ei gilydd i ffurfio Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu gyda'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, awdurdodau tai lleol a rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Canolfan Byd Gwaith, a darparwyr gwasanaethau monitro electronig.

Amcanion MAPPA yw:

- sicrhau bod asesiadau risg mwy cynhwysfawr yn cael eu cynnal, gan fanteisio ar ddulliau cydlynol o rannu gwybodaeth ar draws yr asiantaethau.
- cyfeirio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol.

Sut mae'r MAPPA'n gweithio?

Penderfynir pa droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, a chesglir / rhennir gwybodaeth amdanynt rhwng yr asiantaethau perthnasol. Asesir natur a lefel y risg o niwed a achosir ganddynt, a gweithredir cynllun rheoli risg i ddiogelu'r cyhoedd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, rheolir y troseddwyr dan drefniadau arferol yr asiantaeth neu'r asiantaethau sydd â'r cyfrifoldeb goruchwylio. Fodd bynnag, mae angen rheolaeth Amlasiantaethol weithredol ar rai troseddwyr, a chaiff eu cynlluniau rheoli risg unigol eu llunio a'u monitro trwy gyfarfodydd MAPPA a fynychir gan amrywiaeth o asiantaethau.

Pwy yw'r troseddwyr MAPPA?

Y mae tri chategori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

1 Troseddwyr rhyw cofrestredig

Troseddwyr rhyw sy'n gorfod hysbysu'r heddlu o'u henwau, eu cyfeiriadau a manylion personol eraill, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newid wedyn;

2 Troseddwyr treisgar

Troseddwyr wedi'u dedfrydu i garchar neu gystodaeth am 12 mis neu'n hwy, neu wedi'u cadw dan orchymyn ysbyty. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru, a throseddwyr wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant; a

3 Troseddwyr Peryglus Eraill

Troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan gategori 1 na 2, ond sydd ar y pryd yn achosi risg o niwed difrifol. Mae cysylltiad rhwng y troseddu a'r risg a achosir, ac mae angen rheolaeth amlasiantaethol weithredol arnynt.

Sut mae eu rheoli?

Y mae tair lefel o reolaeth yn seiliedig ar lefel y cydweithrediad amlasiantaethol sydd ei angen i weithredu'r cynllun rheoli risg yn effeithiol. Caiff troseddwyr eu symud rhwng y lefelau fel bo'n addas.

Lefel 1 - Rheolaeth Arferol

Rheolir y troseddwyr hyn dan drefniadau arferol pa bynnag asiantaeth sy'n eu goruchwylio. Ond nid yw hyn yn atal rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, trwy ViSOR neu ddulliau eraill.

Lefel 2 - Rheolaeth Amlasiantaethol Weithredol

Mae cynlluniau rheoli risg y troseddwyr hyn yn golygu cyfraniad gweithredol sawl asiantaeth trwy gyfarfodydd diogelu'r cyhoedd amlasiantaethol (MAPP) rheolaidd.

Lefel 3 - Rheolaeth Amlasiantaethol Weithredol

Tebyg i Lefel 2, ond yn yr achosion hyn mae angen cyfraniad uwch swyddogion i awdurdodi defnyddio adnoddau arbennig, megis gwyliadwriaeth gan yr heddlu neu lety arbenigol a/neu i ddarparu goruchwyliaeth barhaus gan uwch reolwyr.

Beth yw rôl y Bwrdd Rheoli Strategol?

Mae uwch gynrychiolwyr pob un o'r asiantaeth sydd ynghlwm â MAPPA yn ffurfio Bwrdd Rheoli Strategol sy'n cyfarfod o leiaf pob chwarter i fonitro'r trefniadau a chyfarwyddo unrhyw welliannau angenrheidiol.

Beth mae'r Ymgynghorwyr Lleyg yn ei wneud?

Mae gofyn i'r awdurdod cyfrifol benodi dau ymgynghorydd lleyg i fod yn aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol. Mae'r ymgynghorwyr lleyg yn sylwedyddion annibynnol ond gwybodus; maent yn gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n agos iawn at y gwaith yn ystyried eu codi. Maen nhw hefyd yn dod â'u dealltwriaeth a'u canfyddiad nhw o'r gymuned leol i'r Bwrdd Rheoli Strategol - ac mae'n rhaid eu bod yn byw yn y gymuned honno neu fod ganddynt gysylltiad cryf â hi.

ViSOR

Mae ViSOR yn gronfa ddata sy'n dal manylion troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar, a phobl beryglus eraill. Mae'r tair asiantaeth Awdurdod Cyfrifol MAPPA - y gwasanaethau heddlu, prawf, a charchardai - yn gallu gweithio ar yr un system TG, ac mae hyn yn caniatáu rhannu asesiadau risg a gwybodaeth rheoli risg am droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw mewn modd amserol er mwyn lleihau aildroseddu.

Adroddiad yr Ymgynghorydd Lleyg

Ers imi gael fy mhenodi'n Ymgynghorydd Lleyg dros ardal Dyfed-Powys yn 2005, rydw i bob amser wedi bod yn ddiolchgar o gael y cyfle i gyfrannu i'r Adroddiad Blynyddol.

Bydd y rheiny ohonoch sy'n darllen yr adroddiad hwn yn gofyn y cwestiwn arferol, beth yw rôl a swyddogaeth Ymgynghorydd Lleyg yn y broses MAPPA? Wel, â dweud y gwir, doeddwn i ddim yn siŵr iawn pan gefais fy mhenodi, ond gydag arweiniad, hyfforddiant a chymorth y rheiny sy'n gyfrifol am swyddogaethau dyddiol MAPPA o fewn ardal Dyfed-Powys, buan iawn y daeth fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau fel Ymgynghorydd Lleyg yn amlwg.

Mae'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (2003) yn ei gwneud yn ddigon clir bod Ymgynghorwyr Lleyg yn cael eu penodi i gynorthwyo gyda swyddogaeth adolygu MAPPA, ac i weithredu fel aelodau cyflawn ar y Bwrdd Rheoli Strategol.

Hoffwn bwysleisio un pwynt pwysig; nid yw'r Ymgynghorydd Lleyg yn rhan o broses penderfynu MAPPA. Fodd bynnag, rwyf yn mynychu cyfarfodydd MAPPA yn achlysurol fel sylwedydd, ac y mae hyn o gymorth mawr imi wrth ddeall y broses a deall pam y mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael eu cyflawni gan bob asiantaeth sy'n cyfrannu.

Wrth fynychu cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli Strategol rwyf, i bob pwrpas, yn aelod annibynnol. Y mae achlysuron lle rwyf yn gallu herio argymhellion neu awgrymiadau'r gweithwyr proffesiynol yn gwrtais, a dod â'm safbwynt a'm dealltwriaeth i o'r maes i'r fforwm, safbwynt a allai fod wedi ei hepgor gan eraill ar y pryd. Yn fy marn i, mae presenoldeb Ymgynghorydd Lleyg ar y Bwrdd Rheoli Strategol ar brydiau'n fodd o atgoffa pawb sydd ynghlwm o'u hatebolrwydd ar bob adeg i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

Yn ystod y cyfnod rwyf wedi bod ynghlwm â MAPPA, gallaf ddweud heb amheuaeth,

Arwel Fowler
Ymgynghorydd Lleyg

fy mod wedi gweld nifer o newidiadau sylfaenol ar lefel leol sydd wedi cryfhau a mwyhau'r cydweithio gofynnol rhwng yr Awdurdod Cyfrifol a'r Asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithio. Mae hyn o ganlyniad i well dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'u cyfrifoldebau unigol. Yn ogystal, rwyf yn gwerthfawrogi bod y mwyafrif o sefydliadau'r dyddiau hyn ynghanol yr ailstrwythuro parhaus cyfarwydd, a rhaid imi ganmol pob un sydd ynghlwm â hyn am y modd y maent wedi sicrhau lle y mae hyn wedi digwydd bod newidiadau o'r fath wedi eu monitro ac y gweithredwyd arnynt yn gyflym er mwyn sicrhau cysondeb lle y mae'n effeithio'n uniongyrchol ar MAPPA.

Yn ogystal â'r gefnogaeth aruthrol rwyf yn ei derbyn ar lefel leol, rwyf hefyd yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a'r gefnogaeth a roddwyd gan y staff ar lefel genedlaethol, sy'n sicrhau bod pob Ymgynghorydd Lleyg yn cael y cyfle i gyfrannu eu sylwadau a'u barn, a hefyd yn cynnig sylwadau, yn enwedig yn ystod Seminarau Hyfforddi Cenedlaethol Blynyddol yr Ymgynghorwyr Lleyg.

Fodd bynnag, byddwn yn hoffi petai gan y cyhoedd yn gyffredinol fwy o ymwybyddiaeth ynghylch sut y mae'r broses MAPPA yn gweithio, ac y gallent fod yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad pob un sydd ynghlwm â chydweithio i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag troseddwyr a fyddai fel arall yn fygythiad parhaus i'n cymdeithas.

Sicrhau diogelwch y cyhoedd

Mae MAPPA'n wynebu ystod eang o heriau wrth weithredu a monitro diogelwch y cyhoedd. Dyma dair enghraifft, sy'n amlygu gwasanaeth effeithiol y sefydliad.

Anthony

Categori 1 MAPPA

Mae "Anthony" yn droseddwr rhyw risg uchel (Categori 1 MAPPA) a oedd yn cael ei ryddhau o'r carchar. Roedd wedi ei alw'n ôl i'r carchar ddwywaith yn ystod cyfnod ei drwydded, felly cadwyd ef yn y carchar hyd at derfyn ei ddedfryd. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu ei fod ar fin cael ei ryddhau i'r gymuned heb unrhyw oruchwyliaeth statudol gan y Gwasanaeth Prawf. Roedd Anthony dan reolaeth cyfarfodydd MAPPA lefel 3 ac o ganlyniad i'r lefel o risg yr oedd yn ei achosi roedd wedi ei gofrestru gydag Uned Diogelu'r Cyhoedd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr fel 'Achos Diogelu'r Cyhoedd Critigol'.



Er bod Anthony'n dod o ardal Dyfed-Powys ac wedi treulio mwyafrif ei fywyd yma, bu ganddo dueddiad i deithio o amgylch y wlad a wnaeth olygu bod ei reoli a'i fonitro wedi bod yn anodd iawn yn y gorffennol. Tra yn y carchar nododd ei fod yn bwriadu parhau â'i fywyd crwydrol, a byddai hyn yn cynyddu ei botensial i gyflawni troseddau pellach.

Er mwyn diogelu'r cyhoedd cystal ag y gallem, roedd yn bwysig iawn darganfod llety priodol ac annog Anthony i ymgartrefi mewn un lle a chreu bywyd o fewn ei gymuned. Yna byddai modd defnyddio gwasanaethau seicolegol fforensig i'w asesu ac i gynghori'r rheiny oedd yn gweithio gydag ef ynghylch y ffordd orau o'i reoli er mwyn lleihau'r risg ohono'n aildroseddu.

Darganfuwyd llety dros dro i Anthony, gyda'r addewid y byddai llety parhaol yn dilyn os byddai'n gallu profi ei fod wedi ymrwymo i ddatblygu bywyd o fewn y gyfraith. Rhan o'r ymrwymiad hwn oedd ei fod yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a gwasanaethau seicolegol er nad oedd rhwymedigaeth gyfreithiol arno i wneud hynny.

Yn ystod y misoedd dilynol mae Anthony wedi parhau i weithio yn y modd y cytunwyd ac wedi cydymffurfio â phob apwyntiad a sesiwn gwaith a gynigwyd iddo. Y mae'n cael ei fonitro'n ofalus iawn a hyd yn hyn nid oes unrhyw arwydd ei fod yn bwriadu symud i ffwrdd na'i fod yn cyfrannu at unrhyw ymddygiad troseddol.

Er mai cyfeiriad 'dros dro' sydd ganddo, mae'n ymddangos bod y sefydlogrwydd newydd yn sgîl cael cartref a swydd wedi cael effaith cadarnhaol ar ei lefelau risg.

Mae Anthony nawr dan reolaeth MAPPA lefel 2 ac nid yw bellach wedi ei gofrestru fel achos Achos Diogelu'r Cyhoedd Critigol.

Bydd Anthony ar y Gofrestr Troseddwyr rhyw am weddill ei oes a bydd rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion cofrestru. Y mae ganddo hefyd Orchymyn Atal Troseddau Rhyw am gyfnod amhenodol. Parheir i ystyried ei fod yn achosi lefel uchel o risg o niweidio plant, felly y mae'n parhau i gael ei fonitro'n ofalus, ond mae Anthony'n parhau i gyfrannu at y gwasanaethau a gynigir ac y mae pawb sy'n gweithio gydag ef yn credu bod y risg wedi lleihau - o leiaf am y tro.

Drwy MAPPA mae asiantaethau wedi gallu ymgysylltu ag Anthony i leihau'r risg o niwed y mae'n ei achosi, gan felly helpu diogelu'r cyhoedd yn ardal Dyfed-Powys.

Barry — Lefel 2 MAPPA

Yn ystod canol y 1980au cafodd "Barry" ei ddedfrydu i'r carchar am droseddau rhyw difrifol yn erbyn ei ferch ond nid oedd yn droseddwr rhyw cofrestredig gan i'r troseddau a'r ddedfryd ddigwydd cyn y crëwyd y Gofrestr Troseddau Rhyw.

Mae Barry ar hyn o bryd dan Orchymyn Cymunedol am droseddau sy'n llai difrifol. Ond yn dilyn newid arwyddocaol yn ei amgylchiadau daeth Swyddog Prawf Barry yn bryderus iawn fod ei ymddygiad yn dirywio a bod yr amgylchiadau newydd yn adlewyrchu'r rhai hynny adeg ei droseddau rhyw yn y gorffennol.

Roedd y Swyddog Prawf eisoes yn gweithio gydag amrywiol asiantaethau a oedd eisoes yn ymwneud â Barry, ond nododd rhai eraill a fyddai efallai'n gallu cyfrannu at reoli Barry. Oherwydd y cynnydd o ran y risg o niwed yr oedd Barry'n ei achosi a chymhlethdod ei reoli, cyfeiriwyd Barry i MAPPA. Yr asiantaethau a wahoddwyd i'r cyfarfod oedd y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol (gan gynnwys Seicolegydd Ymgynghorol), yr Adran Dai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol lleol.

Am nifer o fisoedd bu'r asiantaethau'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cydweithio i ymateb yn briodol i anghenion Barry wrth barhau i ganolbwyntio ar leihau'r risg i eraill. Gan fod pob asiantaeth yn rhannu gwybodaeth amdano, roedd pawb a oedd yn gweithio gydag ef yn gallu herio'i ymddygiad ystrywgar, gan fod yn ymwybodol o'r modd yr oedd yn ymateb i'r asiantaethau eraill.

Sefydlogwyd ei lety a chynorthwywyd Barry i ddarganfod gwaith gwirfoddol lle na fyddai'n achosi unrhyw risg i blant. Rhoddwyd gwybod i'r bobl roedd yn gweithio iddynt am y risgiau yr oedd Barry'n ei achosi, a sefydlwyd cyfathrebu rheolaidd rhwng y cyflogwr a'r Heddlu fel y gellid rhannu unrhyw bryderon ar unwaith.

Yn y pen draw symudwyd achos Barry o MAPPA gan y credwyd fod y cynllun rheoli'n ddigon cadarn i reoli ei risg heb fod angen i'r asiantaethau gyfarfod yn rheolaidd. Pan ddaeth ei Orchymyn Cymunedol i ben yn ddiweddar, yr asesiad oedd bod y risg y byddai Barry yn achosi niwed wedi lleihau'n arwyddocaol a, hyd yn hyn, nid yw wedi dod i sylw'r heddlu, y mae wedi cynnal ei swydd a'i denantiaeth, y mae'n parhau i ymwneud â'r Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol ac yn cyfarfod â'i nyrs seiciatrig yn rheolaidd.



Charlie — Lefel 2 MAPPA

Dedfrydwyd "Charlie" i 18 mis yn y carchar am drosedd Cynnau Tân yn Fwriadol. Bu'n treulio amser gyda'i ffrindiau mewn fflat gwag, gan ei defnyddio fel lle i gwrdd a chymryd cyffuriau. Un diwrnod rhoddodd Charlie'r fflat ar dân, gan beryglu bywydau'r bobl eraill yn y bloc. Nid oedd gan Charlie unrhyw euogfarnau blaenorol ac eithrio rhybudd am siopladrata pan oedd yn 14 oed.

Pan ddaeth allan o'r carchar nid oedd gan Charlie lety felly aeth i fyw mewn Eiddo Cymeradwy. Fodd bynnag, yn hytrach na gwella aeth ymddygiad Charlie'n fwy anwadal ac aseswyd bod ei risg o achosi niwed yn cynyddu. O ganlyniad cyfeiriwyd hi o Lefel 1 i reolaeth MAPPA Lefel 2. Gwahoddwyd y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Eiddo Cymeradwy a'r asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol. Yn y cyfarfod cyntaf darganfuwyd bod mam Charlie yn achos agored gyda Gwasanaethau Cymdeithasol fel oedolyn bregus. Charlie oedd ei gofalydd am nifer o flynyddoedd, ond gadawodd y cartref pan gychwynnodd ei mam berthynas newydd oddeutu 12 mis yn ôl. Credai Gwasanaethau Cymdeithasol fod y berthynas hon yn niweidiol i iechyd meddwl ei mam a chadarnhaodd y Gwasanaeth Prawf bod y dyn yn hysbys iddynt fel rhywun a oedd â hanes o gam-drin domestig gyda phartneriaid blaenorol. Gwnaethant hefyd gadarnhau ei fod ar y pryd yn byw'n agos i'r Eiddo Cymeradwy lle roedd Charlie'n byw.

Roedd modd i weithiwr allweddol Charlie siarad â hi ynghylch hyn ac yn sgîl hynny datgelodd Charlie iddo ymosod yn rhywiol arni ar nifer o achlysurol, ac mai dyna'r rheswm pam y gadawodd y cartref.

Roedd rhannu gwybodaeth yn y modd hwn drwy MAPPA wedi galluogi'r rheiny oedd yn ymdrin â Charlie i ailystyried eu cynllun rheoli risg yn llwyr. Trefnwyd cwnsela priodol ar ei chyfer â'i symud i Eiddo Cymeradwy gwahanol. Pan ddaeth ei thrwydded i ben roedd Charlie'n paratoi i symud yn ôl at ei mam. Roedd y dyn a ymosododd arni wedi ei euogfarnu ac yn disgwyl ei ddedfryd.

Mae Charlie'n parhau i geisio goresgyn ei dibyniaeth ar gyffuriau ond nid yw wedi ailddroseddu, ac y mae'n parhau i dderbyn cymorth gwirfoddol gan ei gweithiwr allweddol yn yr asiantaeth gyffuriau.

Esbonio MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn gywir ar 31 Mawrth 2009, h.y. ciplun ydyw. Gwelwyd gostyngiad mawr o ran y cyfanswm o droseddwyr Categori 2 a 3 a riportiwyd eleni. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r newid yn y dull riportio a wnaed er mwyn sicrhau darlun mwy cywir o'r niferoedd o droseddwyr cymwys ar gyfer MAPPA sy'n byw yn y gymuned ar unrhyw adeg benodol. Roedd ffigurau'r llynedd yn adlewyrchu nifer y troseddwyr o'r fath dros y flwyddyn gyfan yn hytrach na rhoi ciplun fel y gwaed eleni. Mae'r ffigwr Categori 1 wedi bod yn giplun ar 31 Mawrth am rai blynyddoedd. Mae gweddill y data'n cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009, er mwyn dangos gweithgaredd a chanlyniadau'n gysylltiedig â'r troseddwyr hynny a reolir ar lefel 2 a 3 MAPPA dros y flwyddyn gyfan.

Troseddwyr cymwys MAPPA

Mae'r gyfraith yn diffinio nifer o droseddwyr fel rhai sy'n gymwys am reolaeth trwy MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw neu droseddau treisgar penodol a/neu eu bod yn achosi risg o niwed difrifol, er bod y mwyafrif mewn gwirionedd yn cael eu rheoli dan drefniadau arferol asiantaeth (lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPP llawn.

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig

Y rhai hynny sy'n gorfod rhoi eu henwau, eu cyfeiriadau a'u manylion personol eraill i'r heddlu, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newid wedyn. Mae peidio â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu'n drosedd gyda chosb uchaf o garchar am bum mlynedd.

Troseddwyr Treisgar

Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr wedi'u dedfrydu i garchar / cystodaeth am 12 mis neu'n fwy, neu wedi'u cadw dan orchymyn ysbyty. Y mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru, a throseddwyr wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Troseddwyr Eraill

Troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan ddau gategori arall MAPPA, ond sy'n achosi risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli trwy gyfarfodydd MAPP.

Torri amodau trwydded

Bydd troseddwyr a ryddheir i'r gymuned yn dilyn cyfnod o 12 mis neu'n fwy yn y carchar yn cael eu rheoli dan drwydded gydag amodau (dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau yn erbyn y troseddwyr, ac mae'n bosib y cânt eu galw'n ôl i'r carchar.

Trosedd bellach ddifrifol

Troseddau rhyw neu dreisgar difrifol a restrir yng Nghylchlythyr y Gwasanaeth Prawf rhif 22, 2008. Mae canlyniad arall yn golygu yr ymdriniwyd â'r achos erbyn 31 Mawrth 2009 ond na chafodd y troseddwr euogfarn am Drosedd Bellach Ddifrifol; e.e. cafwyd rhyddfarniad, neu ni aethpwyd ymlaen â'r achos, neu cafwyd euogfarn am drosedd llai difrifol. Gall y data gynnwys troseddwyr a oedd yn parhau dan gyhuddiad o gyflawni trosedd bellach ddifrifol ar 31 Mawrth 2008, a lle mae hynny'n wir nodir hynny.

Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw

Gall llys wneud Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw pan fydd yn delio â rhai troseddwyr rhyw penodol neu pan fydd yr heddlu'n cyflwyno cais arbennig ar sail ymddygiad y troseddwr yn y gymuned. Mae'r Gorchymyn llawn yn para am o leiaf pum mlynedd, a gall bara am gyfnod penagored. Bydd Gorchymyn yn gorfodi'r troseddwyr i gofrestru fel troseddwyr rhyw, a gall gynnwys amodau, er enghraifft i atal y troseddwyr rhag loetran ger ysgolion neu feysydd chwarae. Os bydd y troseddwyr yn gweithredu'n groes i ofynion y Gorchymyn (h.y. yn torri eu hamodau), gellir eu dwyn yn ôl i'r llys, a gallant wynebu carchar am hyd at bum mlynedd.

Gorchymyn Hysbysu

Mae hwn yn gorfodi troseddwyr rhyw sydd wedi'u cael yn euog mewn gwlad dramor i gofrestru gyda'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a achosir ganddynt. Gall yr heddlu gyflwyno cais i'r llys am orchymyn ar gyfer troseddwyr sydd yn y DU, neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

Gorchmynion Teithio Tramor

Mae'r rhain yn atal troseddwyr sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhyw yn erbyn plant rhag teithio tramor os oes angen gwneud hynny er mwyn diogelu plant rhag y risg o niwed rhywiol.

Tîm Diogelu Plant BILI Powys

Mae cyfrifoldebau cyffredinol Tîm Diogelu Plant Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn cynnwys diogelu plant, plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a throseddwyr ifanc.

Mae cyfraniad Pennaeth y Gwasanaeth Diogelu Plant yn y broses MAPPA wedi galluogi cysylltiadau iechyd rhwng y broses MAPPA, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), a fforwm cam-drin domestig Powys.

Mae cydweithio rhwng sefydliadau a rhannu data iechyd perthnasol wedi galluogi MAPPA i gynyddu diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr, boed hwy'n blant neu'n oedolion.

Fel gweithwyr iechyd proffesiynol mae hyn wedi rhoi mewnwelediad pellach i ni i anawsterau a chymhlethdodau gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, ac y mae wedi cynyddu ein gwybodaeth ynghylch asesu risg a'r modd y mae hyn yn sail i benderfyniadau. Y mae hyn wedi effeithio'n sylweddol ar weithio amlasiantaethol a gweithio gyda phlant ac oedolion bregus, boed hwy'n droseddwyr neu'n ddioddefwyr.

Pauline Galluccio
Pennaeth y Gwasanaeth Diogelu Plant / Nyrs Benodol ar gyfer diogelu plant BILI Powys

Gwybodaeth Ystadegol MAPPA 2008/9

Nifer o droseddwyr cymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2009

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	284
Troseddwyr Treisgar	51
Troseddwyr Peryglus Eraill	26
Cyfanswm	361

Troseddwyr a reolir trwy gyfarfodydd MAPP - Lefel 2

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	43
Troseddwyr Treisgar	38
Troseddwyr Peryglus Eraill	17
Cyfanswm	98

Troseddwyr a reolir trwy gyfarfodydd MAPP - Lefel 3

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	5
Troseddwyr Treisgar	6
Troseddwyr Peryglus Eraill	0
Cyfanswm	11

Gorfodaeth ar gyfer troseddwyr a reolir trwy gyfarfodydd MAPP

Wedi'u dychwelyd i'r Ddalfa am dorri amodau eu trwydded

Lefel 2	8
Lefel 3	0
Cyfanswm	8

Anfonwyd i'r ddalfa am dorri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw

Lefel 2	2
Lefel 3	1
Cyfanswm	3

Troseddau Pellach Difrifol gan droseddwyr a reolir trwy gyfarfodydd MAPP

Wedi'u cyhuddo o drosedd bellach ddifrifol

Lefel 2	1
Lefel 3	0
Cyfanswm	1

O'r rhai a gyhuddwyd yn ystod y flwyddyn (Lefel 2 a 3 gyda'i gilydd) ynghyd â'r rhai hynny a oedd yn parhau dan gyhuddiad o gyflawni trosedd bellach ddifrifol llynedd, h.y. ar 31 Mawrth 2008:

Wedi'u cael yn euog o drosedd bellach ddifrifol	0
Canlyniad arall	1
Yn parhau dan gyhuddiad o gyflawni trosedd bellach ddifrifol	1

Data pellach ar Droseddwyr Rhyw Cofrestredig

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig yn:

Sir Gaerfyrddin	102
Ceredigion	39
Sir Benfro	73
Powys	70

Cyfanswm y troseddwyr rhyw cofrestredig yn ardal Dyfed-Powys am bob 100,000 o'r boblogaeth.

59

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig wedi derbyn rhybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu.

9

Gorchmynion Atal Troseddwyr Rhyw

Ceisiadau	33
Rhoddwyd Gorchymyn Dros Dro	1
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	22

Gorchmynion Hysbysu

Ceisiadau	0
Rhoddwyd Gorchymyn Dros Dro	0
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	0

Gorchmynion Teithio Tramor

Ceisiadau	0
Rhoddwyd Gorchymyn Dros Dro	0
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	0

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn gywir ar 31 Mawrth 2009, ciplun ydyw. Mae gweddill y data'n delio â'r cyfnod 1 Ebrill 2008 hyd 31 Mawrth 2009.

Tîm Troseddwyr Ifanc

Nifer cymharol fach o bobl ifanc sydd dan MAPPA yn Sir Benfro, ac mae'r achosion rydym wedi eu rheoli eleni wedi dangos sut y gall cydweithio i asesu a rheoli'r risgiau y maen nhw'n eu hachosi fod yn effeithiol wrth gadw ein cymuned yn ddiogelach.

Cafodd un unigolyn ifanc ei euogfarnu ac, yn dilyn hynny, ei garcharu am drosedd treisgar iawn lle roedd homoffobia'n nodwedd bwysig. Roedd y cyfeiriad MAPPA a ddilynodd a'r trafodaethau ynghylch yr achos mewn cyfarfod amlasiantaethol yn golygu bod pobl allweddol o fewn y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu wedi craffu ar asesiad risg a chynllun rheoli risg y Tîm Troseddwyr Ifanc. Er y teimlwyd bod cynllun y tîm yn ddigon cadarn fel y gellid goruchwylio'r unigolyn gan y tîm yn unig, roedd bod yn rhan o'r broses MAPPA'n hanfodol bwysig wrth bennu'r lefel gywir o reoli risg.

Staff y Tîm Troseddwyr Ifanc, gyda'i dealltwriaeth drylwyr o bobl ifanc, a oedd wrth wraidd yr asesiad a'r cynllunio rheoli risg, felly gallem fod yn hyderus bod anghenion yr unigolyn ifanc hwn hefyd yn cael eu hystyried ac yn cael eu bodloni mewn trafodaethau o fewn y cyfarfod MAPP. Golygai hyn y gellid ymdrin â'r risgiau yr oedd yn ei achosi gyda gwell siawns o lwyddo.

Mewn gwirionedd cwblhaodd yr unigolyn hwn ei gyfnod trwydded yn llwyddiannus ac roedd ganddo gynllun ar gyfer llety a hyfforddiant pellach erbyn diwedd ei gyfnod cyswllt gyda'r tîm.

Liz King, Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc Sir Benfro

Gweithio gyda Dioddefwyr

Diben MAPPA yw cynyddu'r diogelwch a roddir i'r cyhoedd rhag mathau penodol o droseddwyr. I gyflawni hyn mae'n bwysig canolbwyntio ar y dioddefwyr yn ogystal â'r troseddwyr.

Ym mhob achos, nodir y dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Ym mhob achos lle mae troseddwr wedi ei ddedfrydu i 12 mis neu'n hwy yn y carchar am drosedd treisgar neu drosedd rhyw, bydd Swyddog Cyswllt y Dioddefydd (a gyflogir gan Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed-Powys) yn cynnig rhoi gwybod i'r dioddefydd am ddigwyddiadau arwyddocaol yn y ddedfryd. Byddant hefyd yn gofyn barn y dioddefydd ac yn sicrhau bod teimladau'r dioddefydd yn cael eu cyflwyno i'r panel MAPPA. Mae Swyddogion Cyswllt y Dioddefydd yn mynd i'r cyfarfodydd MAPPA neu'n anfon adroddiadau, a bydd cynlluniau rheoli risg yn cymryd y wybodaeth y maent yn ei darparu ystyriaeth.

Yn aml ychwanegir amodau ychwanegol at y trwyddedau ôl-ryddhau i wahardd y troseddwr rhag cysylltu â'r dioddefydd, neu rhag hyd yn oed fynd i'r ardal lle mae'r dioddefydd yn byw.

Mae MAPPA wrth wraidd y gwaith o sicrhau bod anghenion y dioddefwyr yn cael eu parchu, eu deall a, lle'n bosibl, eu bodloni.

Rhai pethau a gyflawnwyd gennym eleni

Yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Cenedlaethol MAPPA 2009, fersiwn 3, rydym wedi rhoi llawer o ymdrech i weithredu newidiadau angenrheidiol o ran ymarfer. Y flwyddyn nesaf bydd angen i ni adolygu a diweddaru polisïau, protocolau a gweithdrefnau.

Adolygwyd cynllun hyfforddi MAPPA a threfnwyd digwyddiad ar gyfer 60 o staff o asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithredu yng Ngorffennaf 2009, gyda digwyddiadau pellach i ddilyn. Parhawyd i gynnal cyfarfodydd briffio ar gyfer yr Awdurdod Cyfrifol ac asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithredu. Y flwyddyn nesaf rydym yn disgwyl cyhoeddiad Llawlyfr Hyfforddi Cenedlaethol MAPPA felly rydym yn edrych ymlaen at ehangu a gwella'r cyfleoedd dysgu ar gyfer staff perthnasol yn ardal Dyfed-Powys.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod troseddwyr MAPPA yn cael eu rheoli'n lleol ac rydym wedi cynnal oddeutu 500 o gyfarfodydd ar draws ardal Dyfed-Powys i drafod a llunio cynlluniau rheoli risg ar gyfer y troseddwyr lefel 2 a 3.

Amcan yr holl waith rydym wedi ei gyflawni yw gwella'r diogelwch a gynigir i'r cyhoedd yn ardal Dyfed-Powys drwy gydweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, bod asesu risg yn drylwyr a bod cynllunio rheoli risg yn gadarn ar gyfer y troseddwyr mwyaf peryglus yn ein cymunedau.

Mae'r modd y mae cynifer o'r troseddwyr a reolwyd gan MAPPA wedi dysgu i fyw eu bywydau o fewn y gyfraith yn dyst i ymdrechion yr holl weithwyr proffesiynol, aelodau teulu, cyfeillion ac aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cyfrannu i'r llwyddiannau hyn.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae MAPPA wedi ymrwymo i roi mynediad cyfartal i'w wasanaethau i bob grŵp, yn arbennig o safbwynt hil, rhyw, oedran, cred grefyddol, rhywioldeb, cyfeiriadedd rhywiol, ac anabledd. Golyga hyn y bydd pob gweithred a gyflawnir neu a argymhellir gan MAPPA, a phob polisi a gweithdrefn, yn cael eu seilio ar asesu risg ac angen, ac ni fyddant yn cael eu seilio ar ragdybiaethau ystrydebol ynghylch grwpiau a fyddai'n arwain at ganlyniad sy'n gwahaniaethu.

Manylion Cyswllt

Arweinwyr Awdurdod Cyfrifol MAPPA

Y Gwasanaeth Prawf

Rebecca Remigio
Prif Swyddog Cynorthwyol
Ffôn: 01267 221567

Yr Heddlu

Nick Ingram
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Ffôn: 101

Y Carchardai

David Ward
Rheolwr Carchar Ei Mawrhydi, Brynbuga a Phrescoed
Ffôn: 01291 671600

Cydlynydd MAPPA

Yvonne Williams
Fôn: 101

Gwefannau Defnyddiol

Gwefannau Awdurdodau Cyfrifol

www.dyfedpowysprobation.org
www.dyfed-powys.police.uk
www.hmpsprisonservice.gov.uk

Dioddefwyr

www.victimsupport.org.uk/powys/dyfed

Gwasanaethau i Blant ac Oedolion Bregus

www.carmarthenshire.gov.uk
www.ceredigion.gov.uk
www.pembrokshire.gov.uk
www.powys.gov.uk

Fforwm Cam-drin Domestig

www.notyourfault.org/carmarthen
www.ceredigion.gov.uk
www.pembrokshire.gov.uk
www.powysdomesticabuse.org